LLYWODRAETH CYMRU

Datganiad Gwrandawiad yr Archwiliad

Cynllun Datblygu Lleol

Parc Cenedlaethol Eryri

Diwygiad Cyntaf (Gweithdrefn Ffurf Fer)

Sesiwn Gwrandawiad 2 – 18 Gorffennaf 2018

Pennod 6: Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy – Economi/Cyflogaeth, Twristiaeth a Manwerthu

1. Economi Wledig Gynaliadwy (Polisi Strategol H)

a. Beth yw canlyniadau disgwyliedig y diwygiadau i Bolisi Strategol H?

Fel a nodwyd yn ein sylwadau ynghylch y Newidiadau â Ffocws, er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyfeiriad ychwanegol at ddiogelu safleoedd cyflogaeth presennol ym Mholisi Strategol H a'r cyfiawnhad rhesymedig, mae'n dal i fod yn aneglur pa safleoedd fydd yn cael eu diogelu. Fel y mae wedi'i eirio, mae'r polisi'n ceisio gwneud dau beth gwahanol; diogelu safleoedd cyflogaeth presennol allweddol a chefnogi'r syniad o ailddefnyddio'r holl safleoedd cyflogaeth eraill, lle y bo'n briodol. I'w wneud yn fwy eglur, dylai'r holl safleoedd cyflogaeth a ddiogelir sydd i'w cadw ar gyfer defnydd cyflogaeth gael eu rhestru mewn polisi diogelu ar wahân a'u nodi ar y map cynigion.

b. Cyflwynwyd maen prawf newydd ym Mholisi Strategol H sy'n awgrymu, lle mae tir cyflogaeth yn cael ei golli i ddefnydd arall, y bydd tir o'r un safon neu o safon uwch ar gael mewn man arall, hyd yn oed os nad yw o fewn ffin y Parc Cenedlaethol. Sut fydd hyn yn gweithio'n ymarferol a pha fecanweithiau fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni? A ddylid egluro hyn ymhellach yn y Polisi?

Dealltwriaeth Llywodraeth Cymru yw bod cynnig wedi cael ei wneud i ddileu'r maen prawf hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Newidiadau â Ffocws.

c. A yw dull gweithredu cyffredinol y Cynllun Diwygiedig o fynd i'r afael â thwf cyflogaeth yn gydnaws â'r lefelau datblygu preswyl a gynigir dros gyfnod y Cynllun?

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon sylfaenol yn y cyswllt hwn.

2. Darpariaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant Newydd (Polisi Datblygu 19)

a. Yn niffyg unrhyw ddyraniadau tir cyflogaeth newydd ar raddfa fach yn y Cynllun Diwygiedig, a fydd y ddibyniaeth barhaus ar ailddefnyddio a/neu ehangu tir ac adeiladau sydd wedi'u dyrannu'n barod neu ddatblygiadau newydd ar safleoedd llai sydd heb eu dyrannu o fewn neu ar bwys trefi neu bentrefi'n darparu tir/safleoedd cyflogaeth digonol i ddiwallu anghenion ardal y Cynllun?

b. A yw'r Polisi yn rhy gyfyngol, yn enwedig o ran y potensial ar gyfer cyfleoedd datblygu economaidd sy'n ymwneud ag adeiladau newydd y tu allan i aneddiadau, megis mentrau gwledig ar raddfa fach?

c. A oes gorddibyniaeth ar argaeledd tir a safleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol i ddiwallu'r angen lleol a nodwyd ar gyfer datblygu cyflogaeth a hyfforddiant?

Mae'r Newidiadau â Ffocws yn rhoi sylw i bryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Pholisi 19 ac nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach yn y cyswllt hwn.

3. Ardal Fenter Eryri

a. A oes unrhyw gyfyngiadau a allai gael effaith ar y gallu i gyflawni'r safleoedd dros gyfnod y Cynllun?

b. Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni yn ôl yr hyn a ragwelir ac a fu unrhyw drafodaethau gyda darpar fuddsoddwyr a datblygwyr ar y naill safle neu'r llall neu a ydynt wedi dangos unrhyw ddiddordeb?

c. Pa oblygiadau fyddai'r Ardal Fenter yn eu dwyn ar gyfer strategaethau datblygu awdurdodau cyfagos, ac i'r gwrthwyneb?

d. A yw'r polisi'n ddigon hyblyg o ran y math o ddatblygiad a allai ddigwydd ar y safle, o ran defnyddio, graddfa a dyluniad adeiladau? Sut fydd y Cynllun yn ymdrin â chynigion ar gyfer datblygiad mawr ar y safle?

e. A oes unrhyw gyfyngiadau o ran seilwaith ar y naill safle neu'r llall a allai effeithio ar gyflawni a hyfywedd?

f. Beth yw'r goblygiadau o ran llifogydd sy'n deillio o ddyrannu tir ym Maes Awyr Llanbedr? Ceir gwrthwynebiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n cadarnhau bod rhannau o'r safle'n anaddas i'w datblygu.

O ran 3a – 3f, cwestiynau i'r Awdurdod ymateb iddynt yw'r rhain.

g. A yw ffiniau dyrannu'r ddau safle wedi'u llunio'n gywir?

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru sylwadau yn ystod y cam Adneuo ynghylch ffin y ddau safle sy'n rhan o Ardal Fenter Eryri ar hen safle gorsaf niwclear Trawsfynydd a Maes Awyr Llanbedr, yn yr ystyr nad ydynt yn cyfateb i ddynodiad Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardal Fenter. Materion i'r adran berthnasol yn y Llywodraeth wneud sylw yn eu cylch yw dilysrwydd y dull a phriodoldeb unrhyw ffin ddiwygiedig.

****